Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

03442 640 670
Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru
Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Drwy e-bost: heiw.mentalhealth@wales.nhs.uk

31 Mawrth 2022

Annwyl dîm ymgynghori,

Croesawaf y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar gynllun y gweithlu iechyd meddwl ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae cynnal iechyd meddwl da a gallu cael cymorth ar gyfer materion iechyd meddwl yn nes ymlaen mewn bywyd yn agweddau hanfodol ar heneiddio'n dda. Mae pobl hŷn wedi bod yn wynebu'r risg fwyaf yn ystod pandemig Covid-19, ac wedi bod yn destun y cyfyngiadau llymaf. Mae hyn wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau hirsefydlog ym maes iechyd meddwl pobl hŷn. Dylai pobl hŷn gael eu gweld fel rhan hanfodol o gymdeithas wrth gynllunio adferiad a dylent allu cael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan a chyfrannu at ein heconomi a'n cymunedau wrth i ni ailadeiladu'n gryfach. Bydd hyn yn golygu, ymysg pethau eraill, sicrhau bod y gweithlu iechyd meddwl wedi'i arfogi i gefnogi'r bobl hŷn hynny sydd angen ei help i fyw'r bywyd gorau posibl yn nes ymlaen mewn bywyd.

Cyfarfu cynrychiolwyr o fy swyddfa â swyddogion arweiniol o Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru i drafod cynllun y gweithlu ar 28 Chwefror 2022. Roeddwn yn falch o glywed y bydd y cynllun yn cynnwys dod â gofal iechyd meddwl yn nes at y cartref, gwella sgiliau'r gweithlu, llythrennedd iechyd meddwl i bawb ac ehangu mynediad at wasanaethau iechyd meddwl y Trydydd Sector, a bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn themâu sy'n gyson drwy'r cyfan. Yn y cyfarfod hwn, mynegodd fy nhîm bryderon am oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran mewn gwasanaethau iechyd meddwl a byddant yn edrych yn ofalus am dystiolaeth eu bod wedi cael sylw drwy gydol y strategaeth pan fydd yn ymddangos.

Er mwyn diwallu anghenion ein poblogaeth sy'n heneiddio, bydd angen i'r cynllun gweithlu iechyd meddwl gynnwys:

- Cydnabod yr amrywiaeth sy'n bodoli yn y boblogaeth hŷn;

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

www.olderpeoplewales.com

- Nodi'r bylchau presennol mewn arbenigeddau pobl hŷn, fel seiciatreg henaint, a strategaeth ar gyfer sut byddant yn cael eu llenwi;
- Camau gweithredu i gryfhau ymwybyddiaeth o faterion sy'n effeithio arnom wrth i ni heneiddio ar draws pob rôl yn y gweithlu iechyd meddwl;
- Cynlluniau i gynyddu mynediad pobl hŷn at wasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned;
- Ymrwymiadau i gael gwared ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran fel ffactorau sy'n cyfyngu ar fynediad pobl hŷn at wasanaethau, a fydd yn helpu pawb beth bynnag fo'u hoed; a
- Sicrwydd y bydd sylw priodol a lefel y gwasanaeth a ddarperir i bobl hŷn yn cael blaenoriaeth fel rhan o'r adferiad ar ôl y pandemig Covid-19.

Dylai'r Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl hefyd ddileu unrhyw rwystrau sy'n codi o ganlyniad i oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran ar gyfer gweithwyr hŷn yn y gweithlu ei hun. Mae'r gweithlu'n heneiddio, ac mae angen yr un cymorth ar gyfer iechyd meddwl ag unrhyw un arall wrth i ni i gyd heneiddio. Dylai'r strategaeth gydnabod oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran yn y gweithlu a rhoi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn, gan sicrhau nad yw pobl hŷn sy'n ymuno â'r gweithlu neu sydd eisoes yn y gweithlu yn wynebu rhwystrau oherwydd gwahaniaethu ar sail oedran. Mae amrywiaeth o adnoddau ymarferol ar gael i helpu gyda hyn, gan gynnwys "Cefnogi gweithwyr hŷn: Pecyn cymorth ar gyfer undebwyr llafur".[1] Rwyf hefyd yn datblygu hyfforddiant ar oedraniaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid, gan gynnwys y gweithlu iechyd meddwl, a fydd ar gael yn nes ymlaen eleni.

Efallai y bydd gennych ddiddordeb hefyd yn fy nghyflwyniad diweddar i ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i anghydraddoldebau mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Mae copi o'm hymateb ynghlwm ac mae'n egluro fy safbwyntiau yn fanylach.

Gobeithio y bydd y cyfraniad hwn yn ddefnyddiol wrth i chi ystyried y cynllun gweithlu, a byddai fy nhîm yn fwy na pharod i gwrdd ag AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru eto i drafod unrhyw rai o'r materion hyn yn fanylach.

Yn gywir,

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

[1] TUC Cymru. (2020). *Cefnogi gweithwyr hŷn: Pecyn cymorth i undebwyr llafur.* Ar gael yn: https://www.tuc.org.uk/sites/default/files/2020-08/olderworkers11_3.pdf